Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

# Llawlyfr Aelodaeth

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

**01248 371839**
**swyddfa@cyfieithwyr.cymru**
**www.cyfieithwyr.cymru**

**@cyfieithwyr**

**Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023**

# Cynnwys


Cynnwys 2

1. **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru** 3

2. **Aelodaeth** 4
   - 2.1 Y flwyddyn aelodaeth
   - 2.2 Y tâl aelodaeth
   - 2.3 Tystysgrif Aelodaeth
   - 2.4 Rhif aelodaeth
   - 2.5 Prawf eich bod yn aelod
   - 2.6 Y drefn ail-ymaelodi flynyddol
   - 2.7 Y rheol ynghylch aelodaeth
   - 2.8 Hawlio'ch tâl aelodaeth yn erbyn treth

3. **Eich Cofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas a'ch Proffil** 5

4. **Cysylltu a gohebu â'n haelodau** 6
   - 4.1 Sut y byddwn yn cysylltu a gohebu â chi
   - 4.2 Y wybodaeth y byddwn yn ei hanfon atoch

5. **Y wybodaeth y mae'r Gymdeithas yn ei dal am ei haelodau** 7
   - 5.1 Hysbysiad Preifatrwydd y Gymdeithas
   - 5.2 Defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

6. **Y Cod Ymddygiad Proffesiynol i aelodau** 8

7. **Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP)** 8

8. **Enw swyddogol y Gymdeithas** 8

9. **Logo'r Gymdeithas** 8

10. **Hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas** 9
    - 10.1 Gwefan y Gymdeithas
    - 10.2 Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Gymdeithas
    - 10.3 Mynegi barn yn enw'r Gymdeithas

11. **Llywodraethiant a rheolaeth** 9

**Atodiad:** 11
Mewngofnodi a golygu gwybodaeth ar wefan y Gymdeithas

# 1. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP).

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg i/o'r Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg i/o'r Saesneg, gostwng nifer yr achosion lle gall unrhyw un ei alw ei hun yn gyfieithydd heb hyfforddiant priodol, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – yn uniongyrchol ers 2016 a thrwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012–16) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny – mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.9 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg:

I gael gwybod rhagor am weithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas, ewch i wefan y Gymdeithas – https://www.cyfieithwyr.cymru/cy

**Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

# 2. Aelodaeth

2.1 Mae’r flwyddyn aelodaeth yn dechrau ar 1 Ebrill i bob aelod.

Os yn ymaelodi am y tro cyntaf, mae gennych weddill y flwyddyn pryd wnaethoch sefyll yr arholiad a’r flwyddyn ganlynol i ymaelodi. Ar ôl hynny bydd angen ail-sefyll yr arholiad.

## 2.2 Y tâl aelodaeth

Y tâl aelodaeth blynyddol llawn yw £150 i bob aelod, ac eithrio Aelodau Sylfaenol yn nhair blynedd gyntaf eu haelodaeth a fydd yn talu £140.

Rhaid talu’r tâl aelodaeth yn llawn. Gallwch wneud hyn mewn un o ddau dull:

- un taliad electronig uniongyrchol
- mewn 4 taliad electronig chwarterol (Ebrill, Gorffennaf, Hydref, Ionawr). Eich cyfrifoldeb chi fydd trefnu’r taliadau hyn a sicrhau bod y tâl aelodaeth wedi’i dalu’n llawn cyn diwedd y flwyddyn aelodaeth

Yn anffodus, ni allwch dalu’r tâl aelodaeth (nac unrhyw daliad arall i’r Gymdeithas) â cherdyn credyd na cherdyn debyd; nac ychwaith trwy ddebyd uniongyrchol.

## 2.3 Tystysgrif Aelodaeth

Caiff pob aelod Dystysgrif Aelodaeth pan fydd wedi talu ei dâl aelodaeth. Darperir y dystysgrif ar ffurf ‘pdf’ yn unig.

Mae’r dystysgrif yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn: eich enw fel y rhoddwyd ef i’r Gymdeithas gennych chi; eich rhif aelodaeth; a lefel/lefelau yr aelodaeth a’r cyfeiriad/cyfeiriadau yr ydych wedi llwyddo ynddo/ynddynt yn arholiadau’r Gymdeithas.

Mae’r dystysgrif hefyd yn cynnwys crynodeb o’r wybodaeth yn Saesneg. Nid ydym yn darparu tystysgrif ar wahân yn Saesneg.

Gofynnwn i chi gadw’ch tystysgrif rhag ofn y byddwch ei hangen fel tystiolaeth eich bod yn aelod o’r Gymdeithas. Mae nifer o sefydliadau yn gofyn am hyn wrth dendro.

Os byddwch yn llwyddo mewn arholiad neu brawf CAP yn ystod y flwyddyn, cewch dystysgrif ddiwygiedig.

## 2.4 Rhif aelodaeth

Rhoddir rhif aelodaeth i bob aelod pan fydd yn ymaelodi â’r Gymdeithas am y tro cyntaf. Cofnod gweinyddol yw’r rhif aelodaeth yn anad dim. Nid yw’r rhif aelodaeth yn ymddangos yn eich Cofnod Aelodaeth ar y wefan.

Gallwch ddod o hyd i’ch rhif aelodaeth mewn dau le:

- ar eich Tystysgrif Aelodaeth. Dyma’r unig fan cyhoeddus lle mae eich rhif aelodaeth yn ymddangos.

- wrth i chi fewngofnodi i olygu’r wybodaeth amdanoch ar wefan y Gymdeithas. Gweler yr Atodiad ar gyfer y cyfarwyddiadau i wneud hyn.

### 2.5 Prawf eich bod yn aelod

Os yw eich enw yn ymddangos ar wefan y Gymdeithas (a chaniatáu eich bod wedi rhoi eich caniatâd iddo ymddangos yno) mae hyn ynddo'i hun yn ddigon o brawf eich bod yn aelod cyfredol o'r Gymdeithas. Felly, os yw unrhyw un am i chi brofi eich bod yn aelod gallwch eu cyfeirio at eich Cofnod Aelodaeth ar y wefan a thynnu eu sylw at y cyflwyniad i'r adran honno o'r wefan ac at y drefn ail-ymaelodi sydd gan y Gymdeithas.

### 2.6 Y drefn ail-ymaelodi flynyddol

Rydym yn gweithredu trefn ail-ymaelodi yn ystod Ebrill a Mai bob blwyddyn i atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth. O 1 Mehefin bob blwyddyn, felly, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn honno fydd i'w gweld ar wefan y Gymdeithas. Caiff enwau pob un fydd heb dalu'u tâl aelodaeth cyn diwedd Mai eu tynnu oddi ar y rhestr o aelodau a bydd y Cofnod Aelodaeth yn diflannu oddi ar y wefan.

### 2.7 Y rheol ynghylch aelodaeth

Os nad yw aelod wedi talu ei dâl aelodaeth erbyn diwedd mis Mai bydd angen ail-sefyll yr arholiad testun neu'r prawf CAP.

### 2.8 Hawlio'ch tâl aelodaeth yn erbyn treth

Mae'r Gymdeithas wedi'i chynnwys ar Restr 3 Cyllid a Thollau EF o dan Adran 344 Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003, felly, gall aelodau hawlio'u tâl aelodaeth yn erbyn treth. Mae hon yn rhestr o sefydliadau a chymdeithasau y gall eu haelodau hawlio rhyddhad treth incwm mewn perthynas â'u taliadau aelodaeth blynyddol. Os oes gennych gwestiwn ynghylch hyn, dylech ei godi gyda'ch cyfrifydd (os oes gennych un) neu gysylltu â CThEF ar 0300 200 1900 (llinell gymorth y Gymraeg).

## 3. Eich Cofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas a'ch Proffil

Fel aelod mae gennych yr hawl i'ch Cofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas – https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd/a-z-o-aelodaur-gymdeithas oni bai eich bod wedi rhoi gwybod nad ydych am i wybodaeth amdanoch ymddangos ar y wefan. Mae'r Cofnod Aelodaeth yn cynnwys manylion cyswllt, lefelau aelodaeth, a'r Proffil. Hwn, felly, yw eich tudalen personol ar wefan y Gymdeithas.

Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr fod y wybodaeth yn eich Cofnod Aelodaeth yn gywir.

I newid unrhyw beth yn eich Cofnod Aelodaeth – ac mae hyn yn cynnwys newid eich e- bost, rhif ffôn, a'ch cyfeiriad – gallwch chi wneud hynny'ch hun trwy fewngofnodi i'r wefan a gwneud y newidiadau angenrheidiol. Does dim angen i chi roi gwybod i'r swyddfa.

• Mae'r wybodaeth ynghylch sut i fewngofnodi i'r wefan i'w chael yn yr Atodiad.

Os cewch chi anhawster wrth ychwanegu neu newid unrhyw beth yn eich Cofnod Aelodaeth, e-bostiwch swyddfa@cyfieithwyr.cymru i gael help neu ateb i gwestiwn.

Sylwch, ni all aelodau newid y wybodaeth am eu lefel(au) o aelodaeth: dim ond y swyddfa all newid y wybodaeth honno.

Nodwedd bwysig o'ch Cofnod Aelodaeth yw'r Proffil. Pwrpas y Proffil yw rhoi'r cyfle i chi hyrwyddo'ch hun a'r gwasanaeth yr ydych yn ei gynnig. Chi sydd i benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys a sut i gyflwyno'r neges honno. Gallwch newid neu ychwanegu at y wybodaeth yn eich Proffil ar unrhyw adeg. Defnyddiwch eich Proffil, felly, i'ch mantais eich hun trwy sôn am eich arbenigedd fel cyfieithydd, ac i farchnata'ch hun a'r gwasanaeth yr ydych yn ei gynnig. Gall y wybodaeth hon fod mor fyr neu mor hir ag y dymunwch. Gallwch hefyd greu dolen uniongyrchol i'ch Cofnod Aelodaeth i'w defnyddio at ddibenion marchnata.

Nodwedd arall o'ch Cofnod Aelodaeth yw y gallwch gynnwys llun o'ch hun ynddo (gweler yr Atodiad).

# 4. Cysylltu a gohebu â'n haelodau

## 4.1 Sut y byddwn yn cysylltu a gohebu â chi

Byddwn yn cysylltu a gohebu â chi trwy e-bost fel arfer. Mae'n bwysig, felly, bod eich cyfeiriad e-bost cywir gennym.

Rydym yn defnyddio 'Mailchimp' fel ein platfform ar gyfer hyn, felly, rydych yn cydnabod y bydd gwybodaeth amdanoch – eich enw a'ch cyfeiriad e-bost – yn cael ei throsglwyddo i 'Mailchimp' i'w phrosesu. Mae Telerau Defnyddio Safonol 'Mailchimp' a sut y mae'n diogelu data personol i'w cael ar wefan 'Mailchimp' (https://mailchimp.com/en-gb/).

Wrth ddefnyddio 'Mailchimp' mae'n rhaid i ni roi'r dewis i chi i ddad-danysgrifio. Os gwnewch chi hynny, mae'n debygol iawn na chewch chi unrhyw ohebiaeth na gwybodaeth gan y swyddfa o gwbl. Hefyd, fe allai fod yn amhosib i ni ail-osod eich cyfeiriad e-bost ar y platfform oherwydd y modd y mae wedi ei gyflunio.

Pur anaml, os o gwbl, y byddwn ni'n defnyddio'r post wrth gysylltu â chi. Serch hynny, mae'n bwysig bod eich cyfeiriad cywir gennym.

## 4.2 Y wybodaeth y byddwn yn ei hanfon atoch

Mae'r Gymdeithas o'r farn bod cysylltu â'r aelodau gyda gwybodaeth a newyddion perthnasol yn elfen bwysig o fuddion aelodaeth ac yn rhywbeth y mae pob aelod yn ei ddisgwyl gennym wrth dalu'i dâl aelodaeth. Bydd yr ohebiaeth hon yn cynnwys y Bwletin Newyddion a'r Bwletin tendrau, gwaith a swyddi cyfieithu, yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â'ch aelodaeth o'r Gymdeithas.

Ni fyddwn yn cynnig barn ac ni fydd cynnwys unrhyw wybodaeth o reidrwydd yn arwydd o gymeradwyaeth ar ran y Gymdeithas. Mater i bob aelod yn unigol fydd penderfynu sut y mae am ymateb i unrhyw wybodaeth a gyflwynir, e.e. gwirio dilysrwydd unrhyw gynnig gwaith cyfieithu, gan gynnwys statws ac enw da y cwmni sy'n cynnig y gwaith; a thelerau ac amodau swyddi unigol.

## 5. Y wybodaeth y mae'r Gymdeithas yn ei dal am ei haelodau

### 5.1 Hysbysiad Preifatrwydd y Gymdeithas

Mae dolen i Hysbysiad Preifatrwydd y Gymdeithas i'w chael ar waelod pob tudalen ar wefan y Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i ddiogelu'r wybodaeth bersonol a gafodd gan ei haelodau. Bydd y wybodaeth honno dan reolaeth staff y swyddfa. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno'n unol â'r holl gyfreithiau perthnasol ar ddiogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data 2018 (cyfraith diogelu gwybodaeth bersonol). Caiff eich gwybodaeth bersonol ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Ni chaiff ei rhannu â neb y tu allan i'r Gymdeithas (ac eithrio 'Mailchimp', gweler 4.1 uchod), gan gynnwys unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mae'r Gymdeithas wedi cofrestru gyda Swydda'r Comisiynydd Gwybodaeth (https://cy.ico.org.uk).

### 5.2 Defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Wrth ymaelodi gofynnwyd i chi lenwi Ffurflen Ymaelodi. Defnyddir y wybodaeth bersonol a gafwyd ganddoch ynddi mewn dwy ffordd:

i) Ar wefan y Gymdeithas yn eich Cofnod Aelodaeth.

Mae y Ffurflen Ymaelodi hefyd yn gofyn i chi ddewis un o dri gosodiad sydd yn eich disgrifio orau, sef:

a) <u>Ar gael</u> i wneud gwaith masnachol, p'un ai ar eich liwt eich hun ynteu'n gweithio i gwmni, ac yn dymuno cynnwys eich manylion a lefel eich aelodaeth ar wefan y Gymdeithas.

b) <u>Heb fod ar gael</u> i wneud unrhyw waith masnachol ac yn dymuno i gomisiynwyr beidio â chysylltu â chi. Yn fodlon i ni gynnwys eich manylion a lefel eich aelodaeth ar wefan y Gymdeithas.

c) <u>Ddim</u> am i ni gyhoeddi'ch enw na chynnwys eich manylion ar y wefan.

Os dewiswyd naill ai a) neu b), bydd y wybodaeth oedd yn y Ffurflen Ymaelodi yn cael ei chynnwys yn y Cofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas. Bydd modd i bob aelod newid a diweddaru'r manylion unwaith y maent ar y wefan (gw. pwynt 3 uchod a'r Atodiad).

Os dewiswyd c) ni fydd unrhyw wybodaeth yn ymddangos ar y wefan ac ni fydd gan yr aelod Gofnod Aelodaeth byw.

ii) Er mwyn cysylltu a gohebu â chi fel aelod (gweler pwynt 4.2 uchod).

## 6. Y Cod Ymddygiad Proffesiynol i aelodau

Wrth dalu eich tâl aelodaeth blynyddol, mae'n amod y bydd disgwyl i chi ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol i aelodau. Ewch i'r dudalen Ymddygiad Proffesiynol ar ein gwefan – https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd/ymddygiad-proffesiynol-1 – i gael copi ohono. Ynghlwm wrth y Cod, mae gan y Gymdeithas drefn gwyno.

## 7. Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i annog pob un o'i haelodau i gymryd eu datblygu proffesiynol parhaus o ddifrif, ac i fanteisio ar bob cyfle perthnasol i wella a datblygu'r doniau personol sy'n allweddol i sicrhau y gallant ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf. Yn ei hanfod, mae DPP yn ymwneud â bod y cyfieithydd gorau y gallwch chi fod.

Mater i bob aelod yn unigol yw penderfynu pa weithgareddau DPP, a faint ohono, sydd fwyaf addas a pherthnasol iddynt hwy. Mae'r dudalen DPP ar ein gwefan – https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/hyfforddiant/cynllun-datblygu-proffesiynol – yn cynnwys y ddogfen 'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018. Bwriad y ddogfen hon yw cynnig canllaw hwylus a fydd yn helpu ac yn annog pob aelod i ystyried pwysigrwydd DPP ac i lunio'i gynllun DPP personol.

Gall pob aelod gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas – gweler yr Atodiad ar gyfer y cyfarwyddiadau i wneud hyn. Dim ond yr aelod a staff y Gymdeithas all weld y cofnod hwn.

Cofiwch holi eich cyfrifydd, os yn gyfieithydd llawrydd, oherwydd mae'n bosib y gallwch hawlio cost eich DPP yn erbyn eich treth.

## 8. Enw swyddogol y Gymdeithas

Enw swyddogol y Gymdeithas yw 'Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf.'. Dan yr enw hwn y mae'r Gymdeithas wedi'i chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau a hwn yw'r unig enw sydd ganddi. Nid oes gan y Gymdeithas enw Saesneg o gwbl.

Wrth gyfeirio at y Gymdeithas yn Saesneg, felly, dylid defnyddio Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar bob achlysur. Ni ddylid defnyddio cyfieithiad Saesneg o enw'r Gymdeithas fel enw swyddogol arni. Yn Saesneg dylid defnyddio 'the association of Welsh translators and interpreters' er mwyn egluro a disgrifio'r Gymdeithas, ond nid fel enw swyddogol.

Os ydych yn ansicr ynghylch y cyfieithiad Saesneg o unrhyw derm sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas, e.e. y termau am y gwahanol gategorïau o aelodaeth, ewch i ochr Saesneg gwefan y Gymdeithas.

## 9. Logo'r Gymdeithas

Y logo a welwch ar glawr y llawlyfr hwn, ar ein gwefan, ar waelod e-byst y swyddogion ac ati, p'un a yw'n wyrdd ar wyn ynteu'n wyn ar gefndir gwyrdd, yw logo corfforaethol y Gymdeithas. Dim ond swyddogion y Gymdeithas gaiff ei ddefnyddio. Ni chaniateir defnyddio nac atgynhyrchu'r logo corfforaethol ar unrhyw ffurf gan unrhyw un arall oni bai bod Prif Swyddog y Gymdeithas yn caniatáu ac yn cymeradwyo hynny. Mae defnyddio logo corfforaethol y Gymdeithas heb ganiatâd y Gymdeithas yn torri'r hawlfraint a gedwir mewn perthynas â'r logo.

Gall Aelodau Cyflawn, Aelodau CAP a Chwmnïau Cydnabyddedig ddefnyddio'r logos pwrpasol a ddyluniwyd ar eu cyfer hwy. Cysylltwch â'r swyddfa i gael yr un perthnasol ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut i'w defnyddio.

# 10. Hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas

## 10.1 Gwefan y Gymdeithas

Gwefan y Gymdeithas – https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/ – yw'r unig le i chwilio am wybodaeth am y byd cyfieithu Cymraeg.

I'r rhai sy'n chwilio am gyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, mae'r gwasanaeth dod o hyd i gyfieithydd yn un hwylus a hawdd ei ddefnyddio.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr ac unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas, gan gynnwys gwybodaeth am weithdai, cyn-bapurau arholiad ac adroddiadau'r Prif Arholwr, yr Ymarferion Cyfieithu, a phob math o adnoddau defnyddiol megis geiriaduron a rhestrau termau. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen Newyddion a thudalen Swyddi cyfieithu.

## 10.2 Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Gymdeithas

**@cyfieithwyr** yw cyfeiriad y Gymdeithas ar "X" ('Twitter' gynt). Rydym hefyd yn defnyddio #cyfieithu.

Mae gan y Gymdeithas dudalen Facebook. Chwiliwch am Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a hoffwch a/neu dilynwch ni.

Rydym hefyd wedi creu tudalen ar LinkedIn https://www.linkedin.com/company/cymdeithas-cyfieithwyr-cymru-cyf. Eto hoffwch a dilynwch ni, os gwelwch yn dda.

## 10.3 Mynegi barn yn enw'r Gymdeithas

Ni chaiff aelodau fynegi barn yn enw'r Gymdeithas na siarad ar ei rhan. Dim ond Cadeirydd neu Brif Swyddog y Gymdeithas sydd â'r hawl i wneud datganiad cyhoeddus, neu roi cyfweliad i'r cyfryngau, yn enw'r Gymdeithas. Fe ddylai aelod gysylltu â'r Prif Swyddog, neu'r Cadeirydd yn ei absenoldeb, os caiff wahoddiad i roi cyfweliad i'r cyfryngau neu wneud datganiad cyhoeddus am gyfieithu ac y gellid dehongli hynny fel siarad ar ran neu fynegi barn y Gymdeithas.

# 11. Llywodraethiant a rheolaeth

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i ymgorfforwyd yn 2003. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4741023. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG. Y Rheolwr Gweinyddol, Sioned Eleri Morgans, yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a etholir gan ac o blith holl aelodau'r Gymdeithas. Mae aelodau'r Bwrdd i'w gweld yma:
www.cyfieithwyr.cymru/cy/amdanom-ni/pwy-ydy-pwy

Manon Cadwaladr yw Cadeirydd y Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn cyflogi dau aelod staff. Teleri Haf yw'r Prif Swyddog a Sioned Eleri yw'r Rheolwr Gweinyddol.

Bydd y Gymdeithas yn cynnal Cyfarfod Blynyddol dros Teams yn unol â'i chyfansoddiad. Yn y Cyfarfod Blynyddol caiff yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon blynyddol eu cyflwyno ac etholir Cyfarwyddwyr. Mae cyfle i aelodau ofyn cwestiynau ynghylch y Gymdeithas.

# Atodiad:
# Mewngofnodi a golygu gwybodaeth ar wefan y Gymdeithas

## 1. Sut i fewngofnodi

Bob tro y byddwch am olygu'r wybodaeth amdanoch eich hun ar y wefan, bydd gofyn Mewngofnodi. Mae'r botwm ar gyfer hyn ar frig y dudalen, ar yr ochr dde. Bydd yn gofyn i chi am eich enw defnyddiwr – sef yr e-bost a ddefnyddiwyd gan y Gymdeithas i greu eich cyfrif gwreiddiol – a'ch cyfrinair.

Yn anffodus, mae ambell gyfarwyddyd yn uniaith Saesneg oherwydd nad yw'r dechnoleg yn caniatáu eu trosi i'r Gymraeg.

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi, dilynwch y camau hyn:

**Cam 1:** Bydd y gair Golygu yn ymddangos ar frig y dudalen, ar yr ochr dde: cliciwch arno. Bydd hwn yn agor eich tudalen unigol chi. Yno fe welwch y wybodaeth amdanoch a geir yn eich Cofnod Aelodaeth.
Sylwch, bydd hwn yn dangos eich rhif aelodaeth, er na fydd y rhif yn ymddangos ar y wefan yn gyhoeddus.

**Cam 2:** Cliciwch ar y botwm Golygu: Cymraeg. Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn gallwch olygu'r holl wybodaeth amdanoch chi'ch hun, heblaw am eich lefel(au) o aelodaeth!

I olygu'r ochr Saesneg, cliciwch ar y botwm Edit: English.

***Wrth i chi olygu'r wybodaeth, sylwer:***

i) Dim ond wrth olygu'r Gymraeg y gellir newid y wybodaeth sy'n gyffredin i'r ddwy iaith, sef:
- cod post
- rhif ffôn
- e-bost
- gwefan
- cyfrifon cymdeithasol
- ar gael i wneud gwaith masnachol ai peidio
- rhestr o'r meysydd gwaith.

ii) Os byddwch am olygu eich cyfeiriad, eich proffil neu eich cymwysterau h.y. unrhyw destun, cofiwch y bydd angen ichi olygu dwy ochr y wefan, yr ochr Gymraeg a'r ochr Saesneg.

iii) Os oes seren goch wrth bennawd ni chewch adael y blwch hwnnw'n wag. Os nad ydych am gynnwys rhai manylion, e.e. eich cyfeiriad, ond nad oes modd gadael y blwch dan sylw yn wag, a wnewch chi roi * * * * * * yn y blwch.

iv) Os byddwch yn llenwi'r blwch 'Cwmni/Sefydliad' bydd hyn yn ymddangos fel llinell gyntaf eich cyfeiriad. Cofiwch, gallwch nodi enw'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo yn eich Proffil.

v) Mae modd i chi uwchlwytho llun i'ch Cofnod Aelodaeth. Dylai'r llun fod yn un o'r pen a'r ysgwyddau ac nid yn annhebyg i lun pasbort.

**Cam 3: Cadw'r wybodaeth**

Mae'n bwysig eich bod yn clicio ar y botwm Cadw ar ddiwedd y dudalen i arbed unrhyw newidiadau y byddwch wedi'u gwneud.

***Cofiwch hefyd y bydd angen i chi wneud newidiadau i'r ochr Saesneg ar ôl Cadw'r rhai Cymraeg.***

Pan fyddwch wedi gorffen golygu'ch manylion, cofiwch Allgofnodi.

## 2. Cofnodi'ch Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP)

Wrth i chi olygu fe welwch hefyd fod man hwylus i chi gofnodi'r gweithgareddau DPP. Wrth annog aelodau i roi sylw dyledus i'w datblygu proffesiynol, penderfynwyd y byddai hwn yn ddull rhwydd a syml i chi gofnodi'ch gweithgareddau DPP. Sylwer, mae gofyn llenwi'r tri blwch ar gyfer pob cofnod neu ni fydd modd diweddaru'r cofnod hwnnw.

Cofiwch, ni fydd y wybodaeth hon yn ymddangos ar y wefan. Mae'n gofnod cyfrinachol i chi, a dim ond y chi a'r swyddfa all ei weld.

Bydd modd i chi weld y cofnod ar unrhyw adeg drwy fewngofnodi i'ch cyfrif.

## 3. Defnyddiwr newydd

Os ydych chi'n ddefnyddiwr newydd, fe gewch e-bost awtomatig gan y Gymdeithas* yn eich gwahodd i ddewis cyfrinair ar gyfer eich cyfrif. Cofiwch gadw cofnod o'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair er bod trefn yn ei lle os byddwch yn ei anghofio. Eich 'enw defnyddiwr' fydd eich cyfeiriad e-bost.

Unwaith y byddwch wedi dewis cyfrinair, byddwch yn mewngofnodi'n awtomatig i dudalen hafan y wefan.

* Sylwch,
- bydd gofyn i chi ymateb i'r neges awtomatig o fewn saith diwrnod neu fel arall bydd gofyn i chi gysylltu â'r swyddfa.

- gallai'r neges hon fynd i'ch blwch 'Spam', felly cadwch olwg arno rhag ofn y bydd y neges yno.